OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2332 (Cy.190)

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2007

Gwnaed - - - -	*7 Awst 2007*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Awst 2007*
Yn dod i rym - -	*7 Medi 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 2(4) a 2(8) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) (Diwygio) 2007 a deuant i rym ar 7 Medi 2007.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002(**2**).

Diwygio Rheoliadau Gofal Iechyd Preifat a Gwirfoddol (Cymru) 2002

3.—(1) Yn rheoliad 3(3)(f) o'r Prif Reoliadau hepgorer y geiriau "neu berson arall".

(2) Yn rheoliad 4(1)(b) o'r Prif Reoliadau hepgorer y geiriau "neu berson arall".

(3) Yn rheoliad 4A o'r Prif Reoliadau hepgorer y geiriau "neu berson arall".

(**1**) 2000 p.14. Rhoddir y pwerau i'r "appropriate Minister". Ystyr "Appropriate Minister" o ran Cymru yw'r Cynulliad: gweler adran 121(1) o'r Ddeddf. Trosglwyddir y pwerau i Weinidogion Cymru gan adran 162 a pharagraff 30 o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru .2006 (P.32).

(**2**) O.S. 2002/325 (Cy.38), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2006/1703 (Cy.165).